Consortium for Research in Deaf Education

# Adroddiad 2021 i Gymru

## Darpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru yn 2020/21

**Cyflwyniad**

Yn 2021 cynhaliwyd 11eg arolwg blynyddol Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar[1]. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Mae CRIDE yn anfon arolwg byr a llawn bob yn ail o flwyddyn i flwyddyn, gyda'r arolwg byr yn cynnwys cwestiynau thematig. Roedd arolwg 2021 yn arolwg llawn, ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21.[2]

Ar ôl 10 mlynedd gwnaethpwyd nifer o newidiadau i'r arolwg yn 2021. Rydym wedi amlygu'r newidiadau hyn yn yr arolwg hwn, gan amlinellu lle y dylid ymgymryd â chymariaethau rhwng yr arolwg hwn ac arolygon blaenorol â gofal.

Mae'r dadansoddiad yn yr arolwg hwn wedi'i seilio ar ymatebion gan 15 o wasanaethau yng Nghymru, yn cynrychioli 22 ardal awdurdod lleol sydd yn gyfradd ymateb o 100%.

**Cynnwys**


Crynodeb canfyddiadau allweddol ........ 3
RHAN 1: Plant Byddar yng Nghymru ........ 4
RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol eraill ........ 13
RHAN 3: Cymorth Ôl-16 ........ 22
RHAN 4: Cymorth a ddarperir ........ 24
RHAN 5: Cefndir a methodoleg ........ 29
Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol ........ 29


[1] At ddibenion adran hon yr arolwg hwn, oni nodir yn wahanol, defnyddir y term 'plant byddar' i gynnwys plant a phobl ifanc hyd at 19 mlwydd ac 11 mis sydd â byddardod synwyrnerfol neu ddargludol parhaol. Gweler troednodyn ar dudalen 4 am fwy o fanylion.

[2] Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn www.ndcs.org.uk/CRIDE neu ar wefan BATOD yn https://www.batod.org.uk/information/cride-reports/.

**Dehongli’r canlyniadau**

Gofynnwyd i wasanaethau roi ffigurau am y sefyllfa o 31 Ionawr 2021 ymlaen.

Yn yr arolwg, rydym yn cydnabod nad yw'r blychau a'r opsiynau a ddarparwyd bob tro yn ddigonol i ddisgrifio'r gwasanaethau a'r plant. Roedd gan wasanaethau'r cyfle i nodi sylwadau neu i egluro lle bu angen trwy gydol yr arolwg. Nodir gan yr adroddiad hwn faterion penodol a ddaeth i'r amlwg mewn sawl rhan.

Fel y gwelwn yn ddiweddarach, mae'n amlwg bod llawer o wasanaethau dal i gael anawsterau wrth dynnu data am blant byddar yn eu hardal ac mae anghysondebau o hyd yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb trwy gydol yr arolwg. Weithiau mae'r gyfradd ymateb i gwestiynau unigol yn amrywio ac weithiau mae yna anghysondebau. Rydym yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio unrhyw anghysondeb sydd yn arbennig o ryfedd. Ond nid yw gwasanaethau bob tro yn ymateb i ymholiadau o’r fath. **Felly dylid parhau i ddefnyddio'r canlyniadau â gofal.** Mae'n rhaid bod yn ofalus hefyd oherwydd gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb i gwestiynau unigol a chamgymeriadau posibl yn narpariaeth y data rhwng yr arolygon.

Y llynedd, yng ngoleuni cyfyngiadau a chyfnodau clo coronafeirws, derbyniwyd cyfradd ymateb llawer is i’r arolwg nag ym mlynyddoedd blaenorol. Mar hyn yn golygu bod cymariaethau blwyddyn ar flwyddyn rhwng 2020 a 2021 yn llai defnyddiol neu ystyrlon nag ym mlynyddoedd blaenorol. Yn yr arolwg hwn, rydym wedi dileu data am ymatebion 2020 lle mae hyn yn wir.

Noder:

- Mae canrannau yn yr arolwg hwn wedi’u talgrynnu i fyny neu i lawr i’r rhif cyfan agosaf.
- Yn yr adroddiad hwn, lle mae nifer y plant byddar mewn unrhyw gategori yn llai na 5, ymddengys ‘<5’. At ddibenion cyfrif o unrhyw gyfansymiau lle y defnyddir ffigur <5, newidiwyd unrhyw ffigur <5 i 0.

## Crynodeb canfyddiadau allweddol

*Nifer y plant byddar*

- Mae yna o leiaf 2,324 o blant byddar yng Nghymru – gostyngiad o 7% ers 2019.
- Mae cyfran y plant byddar yn y categorïau blynyddoedd cynnar/cyn ysgol ac oedran ysgol gynradd wedi gostwng o bedwar a thri phwynt canran yn y drefn honno ers 2019.
- Mae 75% o blant byddar oedran ysgol yn mynychu ysgolion prif ffrwd. Mae 8% yn mynychu ysgolion prif ffrwd gyda darpariaeth adnoddau, gyda 15% yn mynychu ysgolion arbennig nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol. Mae 1% yn cael eu haddysgu gartref.
- Cofnodwyd bod gan 20% o blant byddar angen addysgol ychwanegol pellach (heblaw byddardod).
- Mae 7% o blant byddar yn defnyddio iaith lafar arall heblaw Saesneg neu Gymraeg yn y cartref.

*Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol eraill*

- Mae yna o leiaf 62 swydd Athro Plant Byddar, ac o'r rhain mae 4% ohonynt yn wag. O'r 60 aelod staff sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar, roedd 91% ohonynt yn meddu ar y cymhwyster gorfodol a 7% ohonynt o dan hyfforddiant.
- Bu gostyngiad o 5% ers 2019 ac o 24% ers i arolwg CRIDE ddechrau yn 2011 yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig sy'n gweithio mewn swydd beripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol.
- Mae gan Athrawon Plant Byddar Peripatetig lwyth achos damcaniaethol o 60 o blant byddar.
- Mae 34% o Athrawon Plant Byddar peripatetig dros 50 mlwydd oed ac felly yn debygol o ymddeol o fewn y 10 i 15 blwyddyn nesaf
- Mae yna o leiaf 43 staff arbenigol arall sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaeth addysg arbenigol yn gweithio gyda phlant byddar yng Nghymru

*Darpariaeth adnoddau*

- Cofnodwyd bod 20 darpariaeth adnoddau ledled Cymru. Mae hyn yn ostyngiad o 24 yn 2019. Gan edrych ar ledaeniad darpariaethau adnoddau ledled Cymru, ar gyfartaledd, mae yna un ddarpariaeth adnoddau i bob 116 plentyn byddar.

*Canlyniadau*

- Adroddodd 27% o wasanaethau eu bod nhw'n casglu data ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 i bob plentyn byddar, gyda 60% yn ei wneud ar gyfer plant byddar ar eu llwyth achos.

*Atgyfeiriadau*

- Daeth 20% o atgyfeiriadau i wasanaethau o raglen sgrinio clyw babanod yn 2020. O'r rhain, cysylltwyd ag 88% ohonynt gan Athro Plant Byddar o fewn 2 ddiwrnod gwaith.
- Daeth 80% o atgyfeiriadau o'r tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod. O'r rhain, cysylltwyd â 64% ohonynt gan Athro Plant Byddar o fewn 5 niwrnod gwaith.
- Ni waeth sut derbyniwyd yr atgyfeiriad, cynigwyd ymweliad (naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithiol) i 50% o deuluoedd o fewn 10 diwrnod gwaith.

# RHAN 1: Plant Byddar yng Nghymru

## Faint o blant byddar sydd?

Gofynnwyd i wasanaethau roi manylion am blant byddar sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu[3].

Wrth roi ffigyrau am nifer y plant byddar a oedd yn byw yn yr ardal, gofynnwyd i wasanaethau yn gyntaf i roi ffigwr cyffredinol ac wedyn darparu dadansoddiad yn ôl lefel byddardod, oedran a lleoliad addysgol. Nid oedd rhai gwasanaethau bob amser yn darparu'r data hwn yn gyson; rhoddodd rhai gwasanaethau ffigyrau wedi'u dadansoddi lle'r oedd y swm yn cynhyrchu cyfanswm gwahanol i'r un a rhoddwyd yn rhywle arall yn yr arolwg.

Felly nid yw'n syml i ddod o hyd i ateb clir i'r cwestiwn am faint o blant byddar sydd, ac mae'n rhaid defnyddio'r canlyniadau â gofal. Am yr adroddiad hwn, rydyn ni wedi penderfynu defnyddio'r ffigwr uchaf a rhoddwyd, o naill ai'r cyfanswm terfynol neu gyfanswm y ffigyrau wedi'u dadansoddi. Gwnawn hyn oherwydd rydyn ni am sicrhau ein bod ni wedi cofnodi cymaint o blant byddar â phosib. Lle y gwneir hyn, cyfeiriwn ato fel y "cyfanswm wedi'i addasu" trwy gydol yr adroddiad hwn.

Ymatebodd pob un o'r 15 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn. Yn seiliedig ar ymatebion hyn, **cyfanswm y plant byddar yng Nghymru wedi'i addasu yw 2,324**. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng o 2,486 yn 2019, ac yn dod i ostyngiad o 7% dros 2 flynedd.

Darperir ffigyrau heb eu haddasu yn y tabl dilynol.

*Tabl 1: Ffigyrau a gynhyrchwyd wrth gyfrifo nifer y plant byddar*

| | **Cyfanswm a gynhyrchwyd** |
|---|---|
| Cyfanswm wedi'i addasu | 2,324 |
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant yn gyffredinol | 2,315 |
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant, wedi'i ddadansoddi yn ôl grŵp oedran | 2,316[4] |
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant, wedi'i ddadansoddi yn ôl lefel eu byddardod (gan gynnwys lle bo lefel eu byddardod ddim yn hysbys) | 2,324[5] |
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant, wedi'i ddadansoddi yn ôl lleoliad addysgol | 2,144[6] |

Adroddodd y gwasanaeth lleiaf fod 38 o blant byddar yn byw o fewn ei ffiniau. Adroddodd y gwasanaeth mwyaf 432 o blant byddar (roedd hwn yn wasanaeth yn gweithio dros bum ardal awdurdod lleol). Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n byw mewn pob gwasanaeth oedd 155.

---

[3] Gofynnwyd i wasanaethau i gynnwys pob plentyn sydd â byddardod parhaol sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu, gan gynnwys pob plentyn hyd at 19 mlwydd ac 11 mis sydd â byddardod synwyrnerfol neu ddargludol parhaol unochrol neu ddwyochrol, ar bob lefel o fân i lwyr, gan ddefnyddio disgryfyddion BSA/BATOD p'un ai ydynt yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth neu beidio. Gofynnwyd i wasanaethau hefyd i gynnwys plant sy'n mynychu darpariaeth addysgol y tu allan i'ch ardal ond sydd fel arfer yn byw o fewn eu hardal. O dan ddiffiniad byddardod parhaol a ddefnyddiwyd yn yr arolwg, dylid cynnwys plant sydd â syndrom sydd yn cynnwys byddardod dargludol parhaol, microtia/atresia, camffurfiad y glust ganol, neu'r rheini sydd wedi cael llawdriniaeth ar y glust ganol fel mastoidectomi. Mae ein diffiniad hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddisgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed, fel y rheini a anwyd gyda thafod hollt, Syndrom Down, ffibrosis systig, neu dyscinesia blewynnol cychwynnol. Fel arall, gofynnwyd i wasanaethau i beidio â chynnwys plant â byddardod dros dro, gan gynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog sydd wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed ond disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed.

[4] 2,316 yw swm y ffigurau wedi'u dadansoddi a rhoddir gan wasanaethau, ac nid y cyfansymiau a gofnodwyd gan wasanaethau pan ofynnwyd am gyfanswm am y cwestiwn hwn. Y cyfanswm a gofnodwyd oedd 2,315.

[5] 2,324 yw swm y ffigurau wedi'u dadansoddi a rhoddir gan wasanaethau, ac nid y cyfansymiau a gofnodwyd gan wasanaethau pan ofynnwyd am gyfanswm am y cwestiwn hwn. Y cyfanswm a gofnodwyd oedd 2,315.

[6] Ni chynhwyswyd y data i'r cwestiwn hwn gan un gwasanaeth oherwydd ystyriwyd ei fod yn debygol iawn bod yna wedi bod camgymeriad yn y modd y cafodd y ffigurau hynny eu darparu. Ni ymatebodd y gwasanaeth i'n ceisiadau am eglurhad.

*Tabl 2: Nifer y plant byddar a gofnodwyd, dros sawl blwyddyn yn olynol*

| | **Nifer y plant byddar a gofnodwyd** |
|---|---|
| CRIDE 2021 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,324 |
| CRIDE 2020* | 1,384 |
| CRIDE 2019 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,486 |
| CRIDE 2018 | 2,625 |
| CRIDE 2017 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,642 |
| CRIDE 2016 | 2,374 |
| CRIDE 2015 (cyfanswm wedi'i addasu) | 3,288 |
| CRIDE 2014 | 2,880 |
| CRIDE 2013 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,904 |
| CRIDE 2012 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,743 |
| CRIDE 2011 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,755 |

* Yn 2020, roedd yna 11 ymateb i'r cwestiwn hwn.

**Problemau neu fylchau yn y data**

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd yna unrhyw broblemau neu fylchau yn y data a ddarparwyd am nifer y plant a phobl ifanc a oedd yn byw yn yr ardal lle maen nhw'n gweithredu. Dywedodd deg gwasanaeth (67%) fod yna broblemau neu fylchau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau yn meddu ar ffigurau am blant sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth (60% o wasanaethau).
- gwasanaethau yn meddu ar ffigurau am blant sy'n gwisgo cymhorthion clyw yn unig (7%).
- gwasanaethau ddim yn meddu ar ffigurau am blant sydd wedi gadael yr ysgol (40%).
- arall (33%). Pan ofynnwyd am fanylion, roedd y sylwadau yn cynnwys:
    - heb y data i gyd ar ddisgyblion yn y chweched dosbarth, addysg bellach neu uwch neu leoliadau prentisiaethau.
    - heb y data ar blant nad ydynt yn mynychu gwasanaethau awdioleg yn rheolaidd.
    - heb y data ar blant o dan ENT.

Mae ehangder y problemau a bylchau hyn yn ein hatgoffa bod angen defnyddio'r ffigurau a grëwyd gan arolwg CRIDE â gofal. Mae'r data yn yr adroddiad hwn ond cystal â'r data a ddarperir inni gan awdurdodau lleol, ac mae'r adran uchod yn codi cwestiynau am sut gallwn wella'r data a gesglir am blant byddar. Ar yr un pryd, credwn fod y data a gynhyrchir drwy adroddiadau CRIDE yn parhau i fod un o'r ffynonellau data gorau sydd ar gael.

**Yr hyn y mae'r arolwg yn ei ddweud wrthym am boblogaeth plant byddar yng Nghymru**

Mae'r tablau isod yn darparu dadansoddiadau yn ôl oedran, lefel byddardod, a lleoliad addysg.

*Tabl 3: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal yn ôl oedran*

| Grŵp oedran | Nifer y plant byddar a gofnodwyd | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Blynyddoedd cynnar/cyn ysgol | 160 | 7% |
| Oedran ysgol gynradd | 977 | 42% |
| Oedran ysgol uwchradd | 959 | 41% |
| Ôl-16 hyd at 19 oed | 220 | 9% |
| Cyfanswm | 2,316[7] | |

Mae cyfran y plant byddar yn y categorïau blynyddoedd cynnar/cyn ysgol ac oedran ysgol gynradd wedi gostwng o bedwar a thri phwynt canran yn y drefn honno ers 2019. Mae'r cyfrannau yn y categorïau oedran ysgol uwchradd ac ôl-16 wedi cynyddu gan dri phwynt canran yr un.

Er mwyn cymharu, edrychwyd ar ffigyrau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar amcangyfrifon poblogaeth yn ôl oedran[8] i weld a oedd unrhyw wahaniaethau yn y gyfran o blant mewn gwahanol grwpiau oedran. Dylid nodi ni ofynnodd arolwg CRIDE am oedran penodol plant ond yn hytrach os oeddynt o "oedran ysgol gynradd", ayb felly dylid cymryd y data isod fel bras amcan yn unig. Hefyd, gwyddys bod nifer yr achosion o fyddardod yn amrywio yn ôl oedran, gan adlewyrchu'r ffaith bod nifer o blant byddar yn dod yn fyddar wrth iddynt dyfu'n hŷn. O ganlyniad, nid yw'n bosib cymharu'r ffigurau isod yn uniongyrchol.

*Tabl 4: Cyfran y plant a phobl ifanc yn ôl oedran*

| ONS (data canol 2020) | | | CRIDE 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Canran yr holl blant** | | **Categori** | **Canran o'r cyfanswm** |
| Plant 0 i 4 oed | 23% | | Cyn ysgol | 7% |
| Plant 5 i 11 oed | 37% | | Cynradd (dosbarth derbyn i flwyddyn 6) | 42% |
| Plant 12 i 16 oed | 25% | | Uwchradd (blwyddyn 7 i 11) | 41% |
| Pobl ifanc 17 i 19 oed | 15% | | Ôl-16 | 9% |

*Tabl 5: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl lefel eu byddardod*

| Lefel byddardod | Nifer y plant byddar a gofnodwyd | Canran o'r cyfanswm (lle y bo'n hysbys) |
|---|---|---|
| Unochrol | 384 | 18% |
| Mân | 517 | 24% |
| Cymedrol | 753 | 35% |
| Difrifol | 272 | 13% |
| Llwyr | 239 | 11% |
| Cyfanswm (ac eithrio 'nid yw'n hysbys') | 2,165 | |
| Nid yw'n hysbys | 159 | |
| Cyfanswm (gan gynnwys 'nid yw'n hysbys') | 2,324[9] | |

Mae cyfran y plant byddar ym mhob un o'r categorïau uchod heb newid ers arolwg 2019.

*Tabl 6: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl lleoliad addysgol*

[7] Cyfanswm y ffigurau a rhoddwyd yw 2,316. Ond y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau oedd 2,315. Rydym wedi defnyddio'r ffigur cyntaf yn y tabl hwn.
[8] https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesfor ukenglandandwalesscotlandandnorthernireland
[9] Cyfanswm y ffigurau a rhoddwyd yw 2,324. Ond y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau oedd 2,315. Rydym wedi defnyddio'r ffigur cyntaf yn y tabl hwn.

| Math o ddarpariaeth addysgol | | Nifer y plant byddar | Canran o'r cyfanswm (lle bo'n hysbys) |
|---|---|---|---|
| **O fewn yr awdurdod lleol** | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol | 87 | 4% |
| | Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 73 | 3% |
| | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 14 | 1% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 1,403 | 66% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (e.e. Eton) | 24 | 1% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd[10] | 153 | 7% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir) | 278 | 13% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (**ac eithrio** colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | 51 | 2% |
| **Y tu allan i'r awdurdod lleol** | Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 0 | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 16 | 1% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) | <5 | 0% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd | 8 | 0% |
| | Ysgolion arbennig i ddisgyblion byddar (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir) | 8 | 0% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir) | 9 | 0% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (**ac eithrio** colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | 12 | 1% |
| **Arall** | NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig) | 0 | 0% |
| | Arall (e.e. unedau cyfeirio disgyblion) | <5 | 0% |
| **Cyfanswm (ac eithrio 'nid yw'n hysbys')** | | 2,136 | |
| **Nid yw'n hysbys** | | <5 | |
| **Cyfanswm (gan gynnwys 'nid yw'n hysbys')** | | 2,136[11] | |

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r un wybodaeth fel yr uchod ond heb rannu'r ffigurau yn ôl a ydynt o fewn neu y tu allan i'r awdurdod lleol, a hefyd yn dangos canrannau cryno ar gyfer plant byddar oedran ysgol yn unig.

[10] Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol sydd â darpariaeth adnoddau, canolfan neu uned, ni waeth a yw'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol.

[11] Cyfanswm y ffigurau a rhoddwyd yw 2,316. Ond y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau oedd 2,144. Rydym wedi defnyddio'r ffigur cyntaf yn y tabl hwn.

*Tabl 7: Dadansoddiad o'r mathau o ddarpariaeth addysgol*

| **Math o ddarpariaeth addysgol (ni waeth a ydynt o fewn neu'r tu allan i'r awdurdod lleol)** | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm** | **Canran o gyfanswm y plant oedran ysgol (h.y. ac eithrio plant cyn-ysgol a phobl ifanc ôl-16)** |
|---|---|---|---|
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol | 87 | 4% | |
| Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 73 | 3% | |
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 14 | 1% | 1% |
| Darpariaeth prif ffrwd (gan gynnwys ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol) | 1,443 | 68% | 75% |
| Darpariaeth prif ffrwd: darpariaeth adnoddau | 161 | 8% | 8% |
| Ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion byddar | 8 | 0% | 0% |
| Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol | 287 | 13% | 15% |
| Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | 63 | 3% | |
| Arall (e.e. unedau cyfeirio disgyblion, NEET) | <5 | 0% | |
| Cyfanswm | 2,136 | | |
| Cyfanswm (ac eithrio plant cyn-ysgol a darpariaeth ôl-16 arall ac 'arall') | 1,913 | | |

O gymharu â ffigurau o 2019, mae cyfran y plant byddar oedran ysgol mewn addysg prif ffrwd wedi gostwng o 80% i 75% tra bod y gyfran mewn ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol, wedi codi o 10% i 15%.

*Tabl 8: Dadansoddiad o'r mathau o ddarpariaeth addysgol, yn ôl a ydynt o fewn neu y tu allan i'r awdurdod lleol cartref (lle bo'n hysbys)*

| **Math o ddarpariaeth addysgol** | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| O fewn yr awdurdod lleol cartref | 2,083 | 98% |
| Y tu allan i'r awdurdod lleol cartref | 53 | 2% |
| Cyfanswm (ac eithrio 'nid yw'n hysbys' ac 'arall') | 2,136 | |

**Amlder Anhwylder ar y Sbectrwm Niwropatheg Clywedol (ANSD)**

Rhoddodd 12 gwasanaeth ffigur wrth ateb cwestiwn am nifer y plant oedd ag ANSD yn eu hardal. Yn seiliedig ar yr ymatebion hyn, mae yna 28 o blant byddar yng Nghymru ag ANSD, 1% o holl blant byddar (cyfanswm wedi'i addasu). Mae hyn yr un peth ag yn 2019, pan atebodd 13 gwasanaeth y cwestiwn hwn.

Oherwydd protocolau sgrinio clyw babanod, yr unig ffordd ddibynadwy o ganfod bod babanod yn dioddef o ANSD yw dilyn gweithredoedd profi ar y rheiny sydd wedi bod mewn Unedau Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (NICU), ac nis canfyddir gan y sgrinio a ddefnyddir ym mhoblogaeth 'babanod iach'. Cymru oedd y wlad gyntaf ym Mhrydain i gyflwyno sgrinio clyw babanod i bob babi yn 2004. Mae'r ffigurau a ddarperir trwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod yn awgrymu bod tua 1 o bob 10 plentyn sydd â byddardod cynhenid yn dioddef o ANSD. Felly mae hyn yn awgrymu bod rhai o'r gwasanaethau'n tangofnodi. Gall hyn fod oherwydd diffyg adnabyddiaeth o ANSD mewn plant byddar hŷn - y rhai na chawsant eu sgrinio yn fabanod gan eu bod wedi cael eu geni cyn i sgrinio cael ei gyflwyno i bob babi yn 2004, y 'babanod iach' hynny a basiodd y sgrinio ac a gafodd eu canfod yn ddiweddarach, a'r rheini sydd â byddardod caffaeledig/cynyddol nad ydynt wedi cael eu profi am ANSD.

**Amlder anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Roedd 13 gwasanaeth yn gallu dweud wrthym am nifer y plant byddar oedd ag anghenion dysgu ychwanegol heblaw byddardod, ni waeth a yw'r angen dysgu ychwanegol yn cael ei adnabod yn 'brif' angen neu'n angen 'eilaidd'. Adroddwyd bod nifer y plant byddar ag AAA ychwanegol yn 457. Mae hyn yn 20% o'r cyfanswm o blant byddar, wedi'i addasu. Mae hwn yn ostyngiad o 28% yn 2019. Dylid nodi bod yn 2019, gofynnwyd am blant byddar ag anghenion addysgol arbennig ychwanegol, er mwyn adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddiwyd ar y pryd.

**Plant byddar â mewnblaniadau yn y cochlear a dyfeisiau clyw drwy asgwrn**

Adroddodd 14 gwasanaeth fod gan 160 o blant (7% o gyfanswm plant byddar wedi'i addasu) o leiaf un mewnblaniad yn y cochlear. Mae hyn lawr o 192 o blant (8%) pan ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2019.

Mae plant sydd â cholled clyw difrifol i lwyr yn gymwys am fewnblaniadau yn y cochlear. Gwelwyd yn gynharach mewn tabl pump bod yna 511 o blant gyda cholled clyw difrifol neu lwyr. Er gall hyn fod yn fras amcan yn unig, gellir amcangyfrif bod gan 31% o blant sydd â cholled clyw difrifol neu lwyr o leiaf un mewnblaniad yn y cochlear. Pe bae rhywun yn cymryd bod bron bob plentyn gyda mewnblaniadau yn y cochlear yw'r rheini gyda cholled clyw llwyr, byddai'r canran hwn yn codi i 67%.

Adroddodd gwasanaethau hefyd fod 71 o blant (3% o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar) â chymorth drwy asgwrn. Mae'r gyfran heb newid ers 2019.

**Ieithoedd ychwanegol**

Gofynnwyd i wasanaethau am blant byddar sy'n byw yn yr ardal sy'n defnyddio'r Saesneg neu'r Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol gartref. Atebodd 11 o wasanaethau'r cwestiwn hwn, gan adrodd bod 163 o blant (7% o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar a gofnodwyd). Mae hyn yn gynnydd ers 2019 y tro diwethaf gofynnwyd y cwestiwn hwn, pan fu 6% yn defnyddio'r Saesneg neu'r Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol.

Gofynnwyd i wasanaethau wedyn i ddarparu dadansoddiad o gyfanswm y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl pa ieithoedd a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol/lleoliad addysgol arall. Darparodd 14 gwasanaeth rywfaint o wybodaeth i'r cwestiwn hwn.

Dylid defnyddio gofal wrth edrych ar ganlyniadau'r cwestiwn hwn. Mae hyn oherwydd adnabuwyd 1,863 o blant gan y 14 gwasanaeth a atebodd y cwestiwn hwn. Mae hyn yn llai na'r ffigur o 2,324 a adnabuwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn (gweler tabl un).

*Tabl 9: Nifer y plant sydd â byddardod difrifol/llwyr, yn ôl pa ieithoedd a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol/lleoliad addysgol arall*

| Iaith | Cyfanswm | Canran o ymatebion (lle bo'n hysbys) |
|---|---|---|
| Saesneg llafar | 1,378 | 75% |
| Cymraeg llafar | 175 | 9% |
| Iaith Arwyddion Prydain | 34 | 2% |
| Saesneg llafar ynghyd â chymorth arwyddion | 116 | 6% |
| Cymraeg llafar ynghyd â chymorth arwyddion | <5 | 0% |
| Cyfuniad arall | 145[12] | 8% |
| Cyfanswm sy'n hysbys | 1,848 | |
| Nid yw'n hysbys | 15 | |
| Cyfanswm gan gynnwys nid yw'n hysbys | 1,863[13] | |

Yn arolygon cyn 2017, gofynnodd y cwestiwn hwn am yr ieithoedd a ddefnyddir gan **bob plentyn byddar** mewn addysg. Yn arolygon 2017 a 2019, newidiwyd y cwestiwn hwn i ganolbwyntio ar yr ieithoedd a ddefnyddir gan **blant sydd â byddardod difrifol neu lwyr** yn unig. Yn arolwg 2021 newidiwyd yn ôl i ofyn am bob plentyn byddar.

Gan fynd yn ôl at y data o 2015 y tro diwethaf gofynnwyd am yr ieithoedd a ddefnyddir mewn addysg gan bob plentyn byddar:

- mae'r gyfran sy'n defnyddio Saesneg llafar wedi gostwng o 78% i 75% tra bod y rheini sy'n defnyddio Cymraeg llafar wedi gostwng o 13% i 9%
- mae'r gyfran sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain - 2% - heb newid
- mae'r gyfran sy'n defnyddio Saesneg llafar gyda chymorth arwyddion wedi codi o un pwynt canran i 6% tra bod y rheini sydd yn defnyddio Cymraeg llafar gyda chymorth arwyddion wedi gostwng o un pwynt canran i 0%
- mae naid fawr wedi bod yn y rheini sy'n cyfeirio at gyfuniadau eraill o ieithoedd, o 1% i 8%.

O ystyried yr hyn y mae'r data o'r cwestiwn hwn yn ei ddangos, mae'n rhaid pwysleisio efallai na fyddai defnydd iaith arwyddion/llafar mewn addysg yr un peth bob tro â defnydd iaith arwyddion/llafar o fewn y cartref neu ddymuniadau'r plentyn ei hunan.

**Plant byddar sy'n newydd i'r wlad**

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer y plant byddar a wyddys eu bod 'newydd gyrraedd', wedi cyrraedd eu gwasanaeth o'r tu allan i'r DU o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Adroddodd dau wasanaeth fod pum plentyn byddar newydd gyrraedd, mae hyn yn llai na 1% (0.2%) o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar. Nododd 12 gwasanaeth fod dim plant byddar a wyddys eu bod newydd gyrraedd, a ni atebodd un gwasanaeth y cwestiwn hwn.

**Nifer y plant byddar ar lwythi achos gwasanaethau**

Defnyddir llwyth achos i olygu plant sy'n derbyn rhyw fath o gymorth **o leiaf unwaith y flwyddyn**. Mae enghreifftiau o gefnogaeth yn cynnwys addysgu uniongyrchol, ymweliadau i'r teulu neu'r ysgol, cyswllt â'r

[12] Roedd 136 o'r rhain wedi'u rhestru'n fwy penodol fel rhai dwyieithog – Saesneg llafar a Chymraeg llafar gan un gwasanaeth.
[13] Cyfanswm y ffigurau a rhoddwyd yw 1,863. Ond y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau oedd 1,685. Rydym wedi defnyddio'r ffigur cyntaf yn y tabl hwn.

teulu, ysgol ac athrawon, gwirio teclynnau clyw, ayb. Gofynnwyd i wasanaethau gynnwys plant oedd yn derbyn cymorth gan y gwasanaethau ond nad oeddent yn byw o fewn yr un ardal ddaearyddol â’r gwasanaeth hynny. Roedd gwasanaethau hefyd yn gallu cynnwys plant â byddardod dros dro yn eu hatebion i’r cwestiwn hwn hefyd os oeddent ar lwyth achos y gwasanaeth.

Mae ymatebion gan bob un o’r 15 gwasanaeth yn arwyddo bod o leiaf 3,430 o blant byddar â byddardod parhaol neu dros dro ar lwythi achos gwasanaethau. Y nifer lleiaf o blant ar lwyth achos oedd 37 a'r uchaf oedd 1,204.  Y cyfartaledd oedd 229 o blant.

Mae diffiniad ‘llwyth achos’ wedi newid o fewn arolwg CRIDE dros y blynyddoedd. Wrth ystyried newidiadau i arolwg 2021, ac mewn ymgynghoriad â gwasanaethau, rydym wedi penderfynu defnyddio ‘o leiaf unwaith y flwyddyn’ o hyn ymlaen (yn hytrach na mwy nag unwaith y flwyddyn). Mae’r tabl canlynol yn amlinellu ffigurau llwythi achos dros y blynyddoedd, ochr yn ochr â’r diffiniad a ddefnyddir yn yr arolwg hynny.

Noder hefyd bod yn 2016, newidiwyd cwestiwn yr arolwg i gynnwys plant â byddardod dros dro yn yr ymateb i’r cwestiwn hwn; yn flaenorol gofynnwyd i wasanaethau cynnwys plant â byddardod parhaol yn unig.

*Tabl 10: Nifer y plant byddar ar lwythi achos a gofnodwyd, dros flynyddoedd olynol*

| Blwyddyn | Nifer y plant ar y llwyth achos | Diffiniad llwyth achos | Nifer y gwasanaethau[14] |
|---|---|---|---|
| 2021 | 3,430 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2020 | 1,639 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 11 |
| 2019 | 3,265 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 14 |
| 2018 | 4,258 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2017 | 3,968 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2016 | 3,722 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2015 | 3,022 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2014 | 2,345 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2013 | 2,530 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 17 |
| 2012 | 2,905 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 21 |
| 2011 | 2,638 | Ni ddarparwyd diffiniad clir | 16 |

Gofynnwyd i wasanaethau rhannu nifer y plant ar eu llwythi achos a oedd â byddardod dargludol dros dro. Ymatebodd 13 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn a chofnodwyd bod yna 1,272 o blant â byddardod dargludol dros dro.

Os oes yna 2,324 o blant â byddardod parhaol (cyfanswm wedi’i addasu) yn byw yng Nghymru (fel yr adroddwyd gan wasanaethau) a 2,158 ohonynt ar lwythi achos gwasanaethau gyda byddardod parhaol, mae yna o leiaf 166 o blant byddar (7%) sydd ddim yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn. Nid yw’n dilyn yn awtomatig bod 7% o blant sydd â byddardod parhaol ddim yn derbyn unrhyw gymorth o gwbl; efallai bod nifer fawr ohonynt yn derbyn cefnogaeth llai nag unwaith y flwyddyn gan wasanaeth, neu o rywle arall, er enghraifft, gan ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar yn Lloegr neu ddarpariaethau adnoddau nad ydynt yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth.

**Sut mae ffigurau CRIDE 2021 yn cymharu â ffigurau’r Cyfrifiad Ysgolion?**

[14] Mae’r newid yn nifer y gwasanaethau yn adlewyrchu’r ffaith bod rhai o’r gwasanaethau wedi cyfuno ar ôl 2013.

Mae arolwg CRIDE 2021 yn adrodd fod yna 2,324 o blant byddar yng Nghymru. Ond, mae ffigurau Cyfrif Ysgolion Llywodraeth Cymru yn dynodi bod yn 2,870 o ddisgyblion[15] gyda nam ar y clyw (o'r rheini mae gan 220 ohonynt nam aml-synwyr). Dylid nodi nad yw data Llywodraeth Cymru bellach yn dangos a yw'r nam ar y clyw yn brif angen neu'n angen eilaidd. Awgryma'r ffigyrau hyn fod gwasanaethau yn tangofnodi nifer y plant byddar sydd yn eu hardal yn eu hymatebion i CRIDE.

[15] Mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru nawr yn talgrynnu rhifau i'r pump agosaf. Mae hefyd yn werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi datgan bod dychweliadau Cyfrifiad Ysgolion yn cael eu hawdurdodi gan brifathrawon ysgolion a'u dilysu gan Awdurdodau lleol. Er bod y rhan fwyaf o'r prosesau arferol dilysu data'r cyfrifiad ysgolion 2020 wedi digwydd, oherwydd y pandemig parhaol y coronafeirws, nid yw'r data wedi mynd trwy'r broses ddilysu derfynol arferol. Fel rhan o Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Cymru, dychwelir y data fel arfer i awdurdodau lleol i'w ddilysu'n derfynol. Fel arfer, ni fydd niferoedd cyffredinol y disgyblion ac athrawon yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r newid mwyaf tebygol yn nodweddion y disgyblion eu hunain e.e. hawl i brydau ysgol am ddim. Felly dylai defnyddwyr fod yn fwy gofalus wrth gymharu data ar nodweddion disgyblion a staff dros amser, yn enwedig gyda charfannau bach.

## RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol arall

Holwyd faint o Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys y rheini mewn swydd beripatetig, yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau[16] a/neu'n gweithio mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol.

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu ffigurau 'Cyfwerth ag Amser Llawn' (CALl) am staffio. Er enghraifft, byddai ffigwr o 0.5 am Athro Plant Byddar yn arwyddo ei fod nhw'n treulio hanner yr 'wythnos waith' safonol fel Athro Plant Byddar. Cawsom fod:

- yn gyffredinol, mae yna o leiaf 60 athro CALl sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar yng Nghymru.
- llenwir 91% o'r swyddi hyn gan Athro Plant Byddar hollol gymwysedig gyda'r swyddi sy'n weddill wedi'u llenwi gan athrawon sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol (7%) ac athrawon heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant (2%).
- ar adeg cwblhau'r arolwg, adroddwyd bod yna o leiaf 2 swydd wag CALl
- os ychwanegir y swyddi gwag i gyfanswm yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth, byddai hyn yn arwyddo bod yna o leiaf 62 swydd Athro Plant Byddar CALl, gyda 4% ohonynt yn swyddi gwag.

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad yn ôl math y lleoliad.

[16] Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol sydd â darpariaeth adnoddau, canolfan neu uned, ni waeth a yw'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol.

*Tabl 11: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol*

| | **Yn gweithio'n bennaf fel Athro Plant Byddar peripatetig (cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau (cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n hyblyg fel Athro Plant Byddar peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran)** | **Swyddi Athro Plant Byddar yn gyffredinol (cyfanswm a chanran)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol | 32.7 (93%) | 20.7 (87%) | 0 (0%) | 1 (100%) | 54.4 (91%) |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 2.4 (7%) | 2 (8%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 4.4 (7%) |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0 (0%) | 1.2 (5%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1.2 (2%) |
| Cyfanswm | 35.1 (100%) | 23.9 (100%) | 0 (0%) | 1 (100%) | 60 (100%) |

Mae'r tabl canlynol yn edrych ar y newidiadau yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig mewn cyflogaeth a swyddi dros flynyddoedd olynol.

Fel y gosodwyd yn gynharach, wrth wneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn, dylid nodi gall anghysondebau weithiau ymddangos yn yr ymatebion. Rydym yn gwneud pob ymdrech i ofyn am unrhyw anghysondebau sy'n ymddangos yn arbennig o ryfedd. Ond, nid yw gwasanaethau ac ysgolion bob tro yn ymateb i ymholiadau o'r fath.

*Tabl 12: Newidiadau yn nifer yr Athrawon Plant Byddar o flwyddyn i flwyddyn*[17]

| | Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth | Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth neu o dan hyfforddiant | Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth | Nifer y swyddi gwag | Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (gan gynnwys swyddi gwag) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2021 | 54.4 | 58.8 | 60.0 | 2.4 | 62.4 |
| 2019 | 57.0 | 66.0 | 66.0 | 0 | 66.0 |
| 2018 | 56.425 | 61.825 | 61.825 | 1 | 62.825 |
| 2017 | 57.63 | 60.33 | 60.73 | 3.9 | 64.63 |
| 2016 | 65.45 | 69.25 | 69.25 | 1 | 70.25 |
| 2015 | 69.86 | 73.66 | 74.26 | 0.8 | 75.06 |
| 2014 | 67 | 69.2 | 70.2 | 0.6 | 70.8 |
| 2013 | 66.5 | 71.5 | 71.5 | 3 | 74.5 |
| 2012 | 91.75 | 100.55 | 100.55 | 0 | 100.55 |
| 2011 | 71.95 | 73.95 | 75.95 | 0 | 75.95 |

(Ni chynhwysir data 2020 oherwydd y gyfradd ymateb is i'r arolwg)

*Tabl 13: Newid canrannol yn nifer yr Athrawon Plant Byddar*

| | Newid canrannol dros y 10 mlynedd diwethaf (rhwng 2011 a 2021) | Newid canrannol dros y 2 flynedd ddiwethaf (rhwng 2019 a 2021) |
|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth | -24% | -5% |
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth **neu** o dan hyfforddiant | -20% | -11% |
| Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth | -21% | -9% |
| Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (gan gynnwys swyddi gwag) | -18% | -5% |

Archwiliwyd faint o wasanaethau oedd wedi gweld newid yn nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth rhwng 2019 a 2021 a gwelwyd bod dau wasanaeth (13%) wedi gweld cynnydd, saith gwasanaeth (47%) heb weld unrhyw newid tra bod chwe gwasanaeth (40%) wedi gweld lleihad.

Gofynnwyd a oedd gwasanaethau wedi cael anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar neu ddarparu athrawon llanw dros y 12 mis diwethaf:

- Cofnododd 3 gwasanaeth (20%) anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol
- Cofnododd 4 (27%) ddim anawsterau
- Nododd 8 gwasanaeth (53%) bod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt

- Cofnododd 2 wasanaeth (15%) anawsterau wrth recriwtio athrawon llanw
- Cofnododd 2 (15%) ddim anawsterau
- Nododd 9 gwasanaeth (69%) bod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt

[17] Yn 2017, dechreuasom ofyn am Athrawon Plant Byddar mewn colegau ac ysgolion arbennig nad ydynt ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn benodol. Felly nid yw'n bosib cymharu yn uniongyrchol ffigurau cyn/ar ôl hyn. Ond, mae'n werth nodi nad oedd cynnwys y ffigurau hyn yn arwain at gynnydd amlwg yn nifer yr Athrawon Plant Byddar.

Gan gyfuno'r ffigyrau, cofnododd 4 gwasanaeth (27%) anawsterau wrth recriwtio i **naill ai** swyddi parhaol neu lanw.

Roedd sylwadau gan wasanaethau yn cynnwys y themâu canlynol:

- diffyg Athrawon Plant Byddar cymwysedig ar gyfer swyddi llanw.
- diffyg ymgeiswyr addas / unrhyw ymgeiswyr ar gyfer swyddi rhan-amser.
- anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar cymwysedig mewn gwasanaethau peripatetig a darpariaethau adnoddau.
- gorfod penodi athrawon a'u cefnogi'n ariannol gyda'r cymhwyster gorfodol.

**Cymwysterau ychwanegol sydd gan Athrawon Plant Byddar**

Cawsom fod:

- 1 Athro Plant Byddar CALl, sy'n gweithio mewn swydd beripatetig, yn meddu ar gymhwyster arbenigol ôl-raddedig mewn cymorth blynyddoedd cynnar i blant byddar. Mae hyn yn 2% o'r holl Athrawon Plant Byddar.
- 1 Athro Plant Byddar CALl, sy'n gweithio mewn swydd beripatetig, yn meddu ar gymhwyster arbenigol fel awdiolegydd addysgol. Unwaith eto, mae hyn yn 2% o'r holl Athrawon Plant Byddar.

**Athrawon Plant Byddar yn darparu cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg**

- Cofnododd gwasanaethau fod 14.8 Athro Plant Byddar CALl yn gallu darparu cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y gofyn, sy'n dod i 25% o gyfanswm swyddi Athrawon Plant Byddar.
- Roedd 59% o'r rhain yn gweithio yn bennaf yn y gwasanaeth peripatetig, gyda 7 gwasanaeth yn cael Athrawon Plant Byddar sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Roedd 41% (6 CALl) yn gweithio yn bennaf mewn darpariaethau adnoddau

**Athrawon Plant Byddar mewn swydd beripatetig**

Gofynnwyd faint o Athrawon Plant Byddar a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol neu wasanaeth 'ymweld'. Mae Athrawon Plant Byddar peripatetig fel arfer yn ymweld â phlant byddar mewn darpariaeth 'anarbenigol' – h.y. plant byddar oedran cyn ysgol, plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd neu mewn ysgol arbennig nid ar gyfer plant byddar yn benodol.

*Tabl 14: Nifer yr Athrawon Plant Byddar peripatetig mewn cyflogaeth*

| | **Nifer yr athrawon** | **Canran** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol** |
|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol | 32.7 | 93% | 15 |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 2.4 | 7% | 2 |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0 | 0% | 0 |
| Cyfanswm | 35.1 | | |

Mae’r cyfanswm o 35.1 Athro Plant Byddar peripatetig CALl wedi gostwng o 36.4 yn 2019. Mae hwn yn ostyngiad o 4%.

Ers 2011, pan oedd 42 Athro Plant Byddar mewn swydd, rydym wedi gweld gostyngiad canrannol o 16%.

Yn nhermau Athrawon Plant Byddar peripatetig cwbl gymwysedig, amrywiodd y ffigurau o fewn pob gwasanaeth o 0.8 i 4.8 CALl. Mae wyth gwasanaeth yn cyflogi dau Athro Plant Byddar peripatetig neu lai, ac o’r rheini, roedd chwe gwasanaeth yn cyflogi un Athro Plant Byddar peripatetig cwbl gymwysedig neu lai (e.e. 0.5 CALl). Y nifer cyfartalog o Athrawon Plant Byddar peripatetig (gyda’r cymhwyster gorfodol) fesul gwasanaeth 2 CALl.

**Proffil oedran Athrawon Plant Byddar peripatetig**

Gofynnwyd i wasanaethau am broffil oedran Athrawon Plant Byddar. Roedd hyn mewn ymateb i bryderon parhaus bod nifer yr Athrawon Plant Byddar newydd sy’n cael eu recriwtio yn sylweddol is na nifer yr Athrawon Plant Byddar sydd yn ymddeol o’r proffesiwn.

Mae’r tabl canlynol yn dangos bod 34% o Athrawon Plant Byddar peripatetig dros 50 oed ac felly, yn debygol o ymddeol o fewn y 10 i 15 blwyddyn nesaf. Yn 2019, roedd y ffigwr hwn yn 45%

*Tabl 15: Proffil oedran Athrawon Plant Byddar peripatetig*

| | **Nifer yr athrawon peripatetig (CALl)** | **Canran o’r cyfanswm** |
|---|---|---|
| 49 oed neu’n iau | 24 | 66% |
| Rhwng 50 a 59 oed | 11.1 | 31% |
| Rhwng 60 a 64 oed | 1 | 3% |
| 65 oed neu’n hŷn | 0 | 0% |
| Cyfanswm | 36.1 | |

**Llwythi achos Athrawon Plant Byddar peripatetig**

Mae’r adran hon yn edrych ar lwythi achos damcaniaethol pob un o’r Athrawon Plant Byddar gwadd drwy edrych ar nifer y plant byddar sy’n byw mewn ardal ac nad ydynt yn barod mewn darpariaeth arbenigol (ni waeth a ydynt yn derbyn cymorth neu beidio). Mae yna ystod o farnau ar ddefnyddioldeb hyn a’r ffordd orau o gyfrifo’r gymhareb hon. Dylid ystyried:

- gall ardaloedd mawr neu wledig, o reidrwydd, gael mwy o Athrawon Plant Byddar gwadd nag ardaloedd bach a threfol oherwydd yr angen i ddarparu ar gyfer amser teithio
- gall ardaloedd sydd ag uned neu ysgol arbenigol gael llai o Athrawon Plant Byddar gwadd oherwydd aseswyd bod y plant byddar sydd â'r angen mwyaf mewn darpariaeth arbenigol yn barod
- gall ymddangos bod gwasanaethau sydd mewn sefyllfa well i allu cofnodi a chydnabod yn ddibynadwy nifer y plant byddar sydd yn eu hardal, gan gynnwys y rheini dros 16 oed, â llwythi achos trymach na gwasanaethau sydd wedi darparu ffigur am nifer y plant byddar maent yn 'gwybod' amdanynt yn unig
- nid yw'r llwyth achos damcaniaethol yn dweud wrthym am y canlyniadau a gyflawnwyd gan blant byddar yn yr ardal.

Yn nhermau syml ac er mwyn cysondeb ar draws pob rhan o Gymru, amcangyfrifir y llwythi damcaniaethol trwy rannu nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw mewn unrhyw ardal benodol ac mewn

darpariaeth anarbenigol[18] gyda nifer yr Athrawon Plant Byddar gwadd cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol.[19]

Cawsom fod:

- pob Athro Plant Byddar gwadd (peripatetig) â llwyth achos damcaniaethol o 60 o blant byddar, ar gyfartaledd
- y llwyth achos uchaf oedd 87 mewn un ardal
- yna 2 wasanaeth (13%) lle mae gan bob Athro Plant Byddar gwadd lwyth achos damcaniaethol o 80 o blant byddar neu mwy, ar gyfartaledd.

Mae'r llwyth achos damcaniaethol wedi codi ers 2019 pan oedd gan bob Athro Plant Byddar peripatetig lwyth achos damcaniaethol o 59 plentyn byddar. Mae'r Atodiad yn darparu ffigurau am lwythi achos ar gyfartaledd damcaniaethol i bob awdurdod lleol.

**Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau**

Gofynnwyd faint o Athrawon Plant Byddar a gyflogwyd mewn darpariaethau adnoddau ar gyfer plant byddar. Gofynnwyd i ymatebwyr i adael allan amser a dreulir ar ddyletswyddau ysgol eraill.

*Tabl 16: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau*

| | **Nifer yr athrawon (CALl)** | **Canran** | **Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori perthnasol** |
|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol | 20.7 | 87% | 10 |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 2 | 8% | 2 |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 1.2 | 5% | 2 |
| Cyfanswm | 23.9 | | |

Cofnodwyd 1.4 swyddi Athrawon Plant Byddar gwag CALl mewn darpariaethau adnoddau o Ionawr 2021.

Mae'r cyfanswm o 23.9 Athro Plant Byddar mewn swydd mewn darpariaethau adnoddau wedi gostwng o 27.1 yn 2019. Mae hyn yn ostyngiad o 12%.

Ers 2011, pan oedd yna 34 Athro Plant Byddar mewn swydd mewn darpariaeth adnoddau, rydym wedi gweld gostyngiad canrannol o 30%.

Wrth gymharu nifer y darpariaethau adnoddau â nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant, mae yna gyfartaledd o 1.14 Athrawon Plant Byddar CALl mewn pob darpariaeth adnoddau. Nid yw'r ffigur hwn yn ystyried nifer y plant byddar mewn darpariaethau adnoddau.

18 Mae hyn yn cynnwys: Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig – plant cyn-ysgol, Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol, Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref, Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth, Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (er enghraifft, Eton), Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir), Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth ysgol), NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig), Arall (e.e. Unedau cyfeirio disgyblion), Nid yw'n hysbys. Nid yw hyn yn cynnwys plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd gyda darpariaeth adnoddau neu ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion.

19 Ni chynhwysir unrhyw athrawon sydd yn gweithio fel Athrawon Plant Byddar ond sydd heb gymhwyster ac nad ydynt o dan hyfforddiant.

**Athrawon Plant Byddar sy’n gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol**

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd ganddynt Athrawon Plant Byddar yn gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Ni chofnodwyd unrhyw Athrawon Plant Byddar yn gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Yn 2019, cofnododd gwasanaethau o leiaf un Athro Plant Byddar yn gweithio yn y modd hwn.

**Athrawon Plant Byddar yn gweithio’n hyblyg ar draws gwasanaethau peripatetig a lleoliadau addysg eraill**

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd ganddynt Athrawon Plant Byddar yn gweithio’n hyblyg ar draws gwasanaethau peripatetig, darpariaethau adnoddau ac ysgolion/colegau arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Adroddodd un gwasanaeth bod ganddynt, gydag un Athro Plant Byddar CALl gyda’r cymhwysedd gorfodol yn gweithio yn y modd hwn. Mae hyn yn ostyngiad o 1.5 CALl yn 2019.

**Staff arbenigol arall**

Newidiwyd y ffordd o ofyn am staff arbenigol (heblaw am Athrawon Plant Byddar) yn arolwg 2021, gan ofyn am wybodaeth am y rheini sy’n cael eu **cyflogi’n uniongyrchol** gan y gwasanaeth (yn hytrach na’r rheini sy’n cael eu hadnabod gan y gwasanaeth). Gwnaed y newid hwn er mwyn sicrhau gwell cysondeb yn ein hadroddiadau. Mae’n golygu nad yw’n bosib gwneud cymariaethau uniongyrchol gydag ymatebion o flynyddoedd blaenorol.

Cawsom fod 43.2 staff cymorth arbenigol CALl, heblaw am Athrawon Plant Byddar, yn cael eu cyflogi gan wasanaethau, yn cefnogi plant byddar. Cofnodwyd 1.4 swydd wag CALl. Golyga hyn fod 44.6 swydd staff cymorth arbenigol, gyda 3% o’r rheini yn wag.

*Tabl 17: Nifer y staff cymorth arbenigol, yn ôl swydd*

| | **Nifer a chanran yn gweithio yn y swydd hon** | | **Nifer a chanran y swyddi gwag** | | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y staff (CALl)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff** | **Nifer y staff (CALl)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff** | |
| Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb | 37.1 (96%) | 10 | 1.4 (4%) | 2 | 38.5 |
| Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Cyfathrebwyr ayb | 1 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 1 |
| Dehonglwyr BSL/Saesneg wedi'u cofrestru gyda'r NRCPD | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 |
| Hyfforddwyr byddar/Modelau rôl byddar/Hyfforddwyr iaith arwyddion ayb | 1 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 1 |
| Awdiolegwyr addysgol/Awdiolegwyr mewn addysg nad ydynt hefyd yn meddu ar gymhwyster fel Athro Plant Byddar | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 |
| Technegwyr, ayb | 1.5 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 | 1.5 |
| Therapyddion lleferydd ac iaith | 0.2 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 0.2 |
| Gweithwyr cefnogi teuluoedd/Swyddogion cyswllt | 0.4 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 0.4 |
| Gweithwyr cymdeithasol/Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar | 1 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 1 |
| Arall | 1 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 43.2 (97%) | | 1.4 (3%) | | 44.6 |

**Cymwysterau mewn Iaith Arwyddion Prydain**

Gofynnwyd am gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain (BSL) unrhyw gynorthwywyr addysgu a gweithwyr cymorth cyfathrebu (neu swyddi tebyg) sydd yn gweithio ar hyn o bryd yn uniongyrchol gyda phlant byddar sydd yn defnyddio iaith arwyddion. Yn y cwestiwn hwn, roedd gan wasanaethau'r cyfle i ddweud wrthym am staff arbenigol nad oeddent wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaeth.

*Tabl 18: Cymwysterau BSL staff arbenigol eraill*

| | **Nifer a chanran staff arbenigol eraill sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaeth** | **Nifer a chanran staff arbenigol eraill nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaeth** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| BSL Lefel 1 | 16.6 (41%) | 19 (42%) | 35.6 (41%) |
| BSL Lefel 2 | 14 (34%) | 17 (37%) | 31 (36%) |
| BSL Lefel 3 | 8 (20%) | 6 (13%) | 14 (16%) |
| BSL Lefel 4 | 1 (2%) | 1 (2%) | 2 (2%) |
| BSL Lefel 6 | 1 (2%) | 2.4 (5%) | 3.4 (4%) |
| Cyfanswm | 40.6 (100%) | 45.4 (100%) | 86 (100%) |

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn awgrymu bod plant byddar sy'n defnyddio BSL yn derbyn cefnogaeth gan staff sydd â chymhwyster BSL lefel 3 **o leiaf**. Mae'r tabl uchod yn arwyddo bod 24% o'r cynorthwywyr addysgu perthnasol, ayb, yn meddu ar gymhwyster lefel 3 neu uwch.

# RHAN 3: Cymorth ôl-16

### Pobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol

Gofynnwyd faint o bobl ifanc byddar a adawodd yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2019/20. Nodwyd 14 gwasanaeth bod 112 o bobl ifanc byddar wedi gadael yr ysgol. Credwn fod y ffigur hwn yn is na'r ffigur y byddem yn disgwyl i fod yn gadael ysgol. Er enghraifft, gwelwyd yn gynharach bod yna o leiaf 959 o blant byddar oedran ysgol uwchradd, sy'n awgrymu bod tua 190 ym mhob blwyddyn.

Hefyd cawsom (fel y nodwyd gan 11 gwasanaeth) fod 51 o bobl ifanc yn meddu ar gynllun pontio a gafodd ei lywio gan Athro Plant Byddar (46% o'r bobl ifanc byddar a gofnodwyd eu bod wedi gadael yr ysgol).

Gofynnwyd i wasanaeth a oeddynt yn darparu cymorth i bobl ifanc byddar mewn addysg bellach neu gyrchfannau ôl-ysgol eraill. Dywedodd dau wasanaeth (13%) eu bod nhw, a 13 gwasanaeth (87%) eu bod nhw ddim.

Cynhyrchodd hyn ffigwr o lai na phum person ifanc byddar yn derbyn cefnogaeth, a phob un ohonynt yn meddu ar Gynllun Dysgu a Sgiliau (CDS). Yn nhermau cyllid, cofnododd gwasanaethau fod cyllid yn cael ei ddarparu gan y darparwyr ôl-16.

### Cyngor gyrfaol

Gofynnwyd a oedd Athrawon Plant Byddar peripatetig mewn gwasanaethau yn darparu unrhyw gymorth a nodir isod mewn perthynas â chyngor gyrfaol a symud mewn i gyflogaeth.

*Tabl 19: Cymorth ar gyngor gyrfaol a symud i mewn i gyflogaeth*

| **Categori** | **Ie – nifer a chanran y gwasanaethau** | **Na – nifer a chanran y gwasanaethau** | **Ansicr - nifer a chanran y gwasanaethau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd mewn **ysgolion** ar gyngor gyrfaoedd i bobl ifanc byddar | 11 (79%) | 1 (7%) | 2 (14%) | 14 (100%) |
| Ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd mewn **colegau** ar gyngor gyrfaoedd i bobl ifanc byddar | 7 (50%) | 7 (50%) | 0 (%) | 14 (100%) |
| Darparu cyngor ar hygyrchedd lleoliadau gwaith sy'n cael eu hymgymryd gan bobl ifanc byddar | 9 (64%) | 4 (29%) | 1 (7%) | 14 (100%) |
| Darparu gwybodaeth i bobl ifanc byddar am y gefnogaeth sydd ar gael drwy gynllun Mynediad at Waith am gymorth cyflogaeth | 7 (54%) | 3 (23%) | 3 (23%) | 13 (100%) |
| Darparu gwybodaeth i bobl ifanc byddar am eu hawliau o dan y Ddeddf Gydraddoldeb i addasiadau rhesymol yn y gweithle | 8 (62%) | 3 (23%) | 2 (15%) | 13 (100%) |

**Cymorth ôl-19**

Wrth ofyn am nifer y plant byddar, gofynnir i wasanaethau am nifer y plant byddar o 0 i 19 oed. Ond, cyflwynwyd cwestiwn newydd yn arolwg 2021 i ofyn i wasanaethau a ydynt yn darparu cymorth i bobl ifanc byddar dros 19 oed. Gwelsom y canlynol:

- Dywedodd dau wasanaeth (13%) eu bod nhw, ac â chyfanswm o bum person ifanc dros 19 oed.
- Derbyniodd y pum person ifanc hyn gymorth dros leoliadau coleg arbennig, addysg uwch ac addysg bellach.
- Dywedodd 13 gwasanaeth (87%) eu bod nhw ddim yn darparu cymorth i bobl ifanc byddar ôl-19.

# RHAN 4: Cymorth a ddarperir

**Lle mae gwasanaethau wedi'u lleoli**

Nododd pob un o'r 15 gwasanaeth (100%) fod y gwasanaeth wedi'i leoli yn yr awdurdod lleol.

**Penaethiaid gwasanaethau**

Holwyd a oedd Athrawon Plant Byddar peripatetig yn y gwasanaeth wedi'u rheoli gan rywun sy'n Athro Plant Byddar cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol. Nododd saith gwasanaeth (47%) eu bod nhw, ac wyth gwasanaeth (53%) yn dweud na.

Lle nad oedd gwasanaethau yn cael eu rheoli gan Athro Plant Byddar cymwysedig neu Athro Plant Byddar o dan hyfforddiant, gofynnwyd am swydd y person a oedd yn rheoli'r gwasanaeth. Roedd atebion yn cynnwys:

- Pennaeth ADY
- Prif Seicolegydd Addysgol a Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer ADY
- Rheolwr Cymorth am Ddysgu ac Athro Ymgynghorol ASD
- Cydlynydd AAA Synhwyraidd, Corfforol/meddygol
- Athro Plant â Nam ar y Golwg Cymwysedig
- Athro Arbenigol am Anawsterau Lleferydd ac Iaith.

**Nifer y darpariaethau adnoddau**

Gofynnwyd am nifer y ddarpariaeth adnoddau (mewn ysgolion arbennig neu brif ffrwd) yn eu hardal. Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol sydd â darpariaeth adnoddau, canolfan neu uned, ni waeth a yw'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol. Cawsom fod:

- yna 10 darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol gynradd
- gan naw gwasanaeth o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol gynradd yn eu hardal
- yna 10 darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd.
- gan naw gwasanaeth o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd yn eu hardal

Rhoddodd hyn gyfanswm o 20 darpariaeth adnoddau ledled Cymru. Mae hyn yn ostyngiad o 2019 pan nodwyd 24 darpariaeth adnoddau gan CRIDE.

*Tabl 20: Nifer y darpariaethau adnoddau dros amser*

| Blwyddyn | Nifer y darpariaethau adnoddau |
|---|---|
| 2021 | 20 |
| 2019 | 24 |
| 2018 | 25 |
| 2017 | 25 |
| 2016 | 24 |

(Ni chynhwysir data 2020 oherwydd y gyfradd ymateb is i'r arolwg)

Gofynnwyd i wasanaethau faint o'r darpariaethau adnoddau a oedd dan arweiniad Athro Plant Byddar cymwysedig – roedd hyn yn berthnasol i 16 (80%) o'r darpariaethau adnoddau. Hefyd edrychwyd ar nifer y darpariaethau adnoddau ledled Cymru, yn erbyn poblogaeth gyffredinol plant byddar. Y bwriad oedd dangos lledaeniad darpariaethau adnoddau ar draws Cymru mewn perthynas â phoblogaeth gyffredinol plant byddar. Cawsom fod yna, ar gyfartaledd, un ddarpariaeth adnoddau i bob 116 o blant byddar.

**Nid** yw hyn yn fesur o'r nifer o leoedd sydd ar gael yn, neu'r plant byddar unigol sydd wedi'u cofrestri ym mhob darpariaeth adnoddau; bydd y ffigurau am leoedd neu blant byddar sydd wedi'u cofrestri yn amrywio o ddarpariaeth i ddarpariaeth.

Mae'r Atodiad yn cynnwys ffigurau am ledaeniad darpariaethau adnoddau yn erbyn poblogaeth leol plant byddar ym mhob awdurdod lleol.

**Fframweithiau Cymhwyster**

Cofnododd pob un o'r 15 gwasanaeth (100%) eu bod yn defnyddio'r Fframwaith Cymhwyster NatSIP ar gyfer Sgorio Lefelau Cymorth (2017) i helpu penderfynu ar lefel y cymorth a ddarperir gan Athrawon Plant Byddar i blant.

Dywedodd 13 gwasanaeth (87% o wasanaethau) eu bod nhw'n defnyddio'r Fframwaith Cymhwyster NatSIP ar gyfer sgorio lefelau cymorth i blant byddar o enedigaeth i ddiwedd S1 (Meithrin) (2019) er mwyn penderfynu ar lefel y cymorth a ddarperir gan Athrawon Plant Byddar i blant cyn-ysgol. Dywedodd dau wasanaeth (13% o wasanaethau) eu bod nhw ddim yn ei ddefnyddio.

**Dyraniadau cymorth**

Cofnododd dau wasanaeth (13%) fod yna wedi bod newidiadau i'w dyraniad cymorth rhwng blynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21 gyda 13 (87%) yn cofnodi ni chafwyd unrhyw newidiadau.

Roedd y newidiadau yn cynnwys:

- effaith covid-19, gan gynnwys gwasanaethau yn methu ymgymryd ag ymweliadau a chymorth wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnodau clo neu pan nad oedd y plant yn yr ysgol
- newidiadau i ddosraniad llwythi achos rhwng Athrawon Plant Byddar

**Canlyniadau**

Gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt yn casglu data ar ganlyniadau addysgol a gyflawnwyd gan blant byddar ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4:

- Dywedodd pedwar gwasanaeth (27% o wasanaethau) eu bod nhw, am bob plentyn byddar sy'n byw yn yr awdurdod lleol neu'r awdurdodau lle mae ei wasanaeth yn gweithredu.
- Dywedodd naw gwasanaeth (60% o wasanaethau) eu bod nhw, ond am blant sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth yn unig.
- Dywedodd dau wasanaeth (13% o wasanaethau) na.

Wedyn gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt yn rhannu'r data hwn gyda'r Gweithgor Gwasanaethau Clyw Plant (CHSWG) yn eu hardal. O'r gwasanaethau a nododd eu bod nhw yn casglu'r data uchod, dywedodd

pum gwasanaeth (38% o wasanaethau) eu bod nhw yn ac wyth gwasanaeth (62% o wasanaethau) yn dweud eu bod nhw ddim.

**Safonau ansawdd**

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r safonau ansawdd neu adnoddau a dywedodd gwasanaethau wrthym eu bod nhw'n eu defnyddio er mwyn archwilio neu wella ymarfer.

*Tabl 21: Safonau ansawdd ac adnoddau a ddefnyddir gan wasanaethau*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran o wasanaethau** |
|---|---|---|
| NatSIP: Safonau Ansawdd i Wasanaethau Cymorth Synhwyraidd yn Lloegr | 10 | 67% |
| Safonau Ansawdd NDCS: Cymorth blynyddoedd cynnar i blant sydd â cholled clyw, o 0 i 5 oed (Lloegr) | 7 | 47% |
| NAFWC 34/2005 – Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Addysgol i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar y Synhwyrau (Cymru) (2005) | 8 | 53% |
| Safonau ansawdd rhaglen sgrinio clyw babanod | 4 | 27% |
| Pecyn Cymorth Gwella Ansawdd NatSIP | 5 | 33% |
| Adran Iechyd: Pobl Byddar-ddall: Canllaw i awdurdodau lleol | 2 | 13% |
| Arall | 2 | 13% |

Pan atebodd gwasanaethau 'arall', nodwyd eu bod nhw'n defnyddio:

- Safonau Ansawdd: Darpariaethau adnoddau i blant a phobl ifanc byddar mewn ysgolion prif ffrwd (Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar)
- Cyfnodolyn Datblygol am Blant a Babanod Byddar.

**Cymorth yn dilyn adnabyddiaeth o fyddardod**

Yn arolwg 2021, cyflwynwyd cwestiwn newydd i ofyn i wasanaethau sawl atgyfeiriad a dderbyniwyd ganddynt dros flwyddyn galendr 2020.

*Tabl 22: Atgyfeiriadau*

| | **Nifer a chanran yr atgyfeiriadau** | **Nifer y gwasanaethau** |
|---|---|---|
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod | 34<br>(20%) | 8 |
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod | 135<br>(80%) | 13 |
| Cyfanswm | 169[20]<br>(100%) | 13 |

Hefyd cawsom fod:

[20] Cyfanswm y ffigurau a rhoddwyd yw 169. Ond y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau oedd 156. Rydym wedi defnyddio'r ffigur cyntaf yn y tabl hwn.

- o'r atgyfeiriadau am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod, cysylltwyd â 30 o deuluoedd gan Athro Plant Byddar o fewn 2 ddiwrnod gwaith.[21] Mae hyn yn 88% o'r 34 o blant a gafodd eu hatgyfeirio drwy'r llwybr hon.[22]
- o'r atgyfeiriadau am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod, cysylltwyd â 86 o deuluoedd gan Athro Plant Byddar o fewn 5 niwrnod gwaith.[23] Mae hyn yn 64% o'r 135 o blant a gafodd eu hatgyfeirio y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod.[24]
- derbyniodd 84 o deuluoedd gynnig o ymweliad (naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithiol) gan Athro Plant Byddar o fewn 10 diwrnod gwaith o unrhyw atgyfeiriad.[25] Mae hyn yn 50% o'r 169 o blant a gafodd eu hatgyfeirio naill ai drwy neu'r tu allan i raglen sgrinio clyw babanod.[26]

Lle nododd gwasanaethau sylwadau am atgyfeiriadau, roedd bron pob un yn ymwneud ag effaith covid-19:

- nid yw'r niferodd yn nodweddiadol oherwydd y cyfyngiadau
- dim atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod clo cyntaf
- cynigwyd ymweliadau rhithiol i blant oedran cyn ysgol
- ar gyfer plant oedran ysgol, cysylltwyd â'u hysgolion
- derbyniodd rhai teuluoedd gymorth dros y ffôn i ddechrau
- roedd oedi wrth i rai atgyfeiriadau gyrraedd gwasanaethau oherwydd y cyfnodau clo
- nid oed yn bosib cynnal rhai ymweliadau mor gyflym ag y dymunwyd
- y gwasanaeth yn gweithio yn agos gydag awdioleg, ac yn rhoi blaenoriaeth i ymweliadau yn ôl cyngor awdioleg, yn ogystal â chefnogi clinigwyr a chwrdd â theuluoedd mewn clinigau
- oherwydd cymarebau staffio mae rhai plant yn cael ymweliad gan Dechnegydd Clywedegol yn hytrach nag Athro Plant Byddar, yn dibynnu ar lefel y byddardod. Mae pob un yn cael eu cysylltu, ac yn derbyn strategaeth.
- ni chysylltwyd â rhai atgyfeiriadau a oedd cyn hynny wedi cael eu hatgyfeirio (h.y. plant a oedd wedi cael saib o wisgo cymhorthion clyw, ac wedyn yn ailddechrau).

[21] Yn unol â disgwyliadau wedi'u gosod gan safonau ansawdd NatSIP am wasanaethau cymorth synhwyraidd yn Lloegr (2016)
[22] Ni ymatebodd 7 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn
[23] Yn unol â disgwyliadau wedi'u gosod gan safonau ansawdd NatSIP am wasanaethau cymorth synhwyraidd yn Lloegr (2016)
[24] Ni ymatebodd 6 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn
[25] Yn unol â disgwyliadau wedi'u gosod gan safonau ansawdd NatSIP am wasanaethau cymorth synhwyraidd yn Lloegr (2016)
[26] Ni ymatebodd 2 wasanaeth i'r cwestiwn hwn

## RHAN 5: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiwm sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Ar adeg anfon yr arolwg allan, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD), Ysgol Frank Barnes i Blant Byddar, Mary Hare, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, Partneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrau (NatSiP), Coleg Prifysgol Llundain, Prifysgol Caeredin, ymgynghorwyr sy'n arbenigo mewn byddardod, a gwasanaethau addysg arbenigol i blant byddar yn Swydd Caergrawnt, Camden, Caint a Leeds.

Dyluniwyd a chynlluniwyd yr arolwg gan aelodau CRIDE. Mae arolwg CRIDE yn defnyddio arolygon byrrach a llawn bob yn ail flwyddyn. Yn 2021, cyhoeddwyd arolwg llawn.

Dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethau yng Nghymru ym mis Chwefror 2021 gan staff Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar ran CRIDE. Gofynnwyd i wasanaethau ymateb erbyn 15 Mawrth 2021. Lle na fu ymateb erbyn y dyddiad hwn, cysylltwyd â gwasanaethau trwy e-bost a/neu ffôn gan aelodau CRIDE.

Amlinellir y tabl isod cyfraddau ymateb yn ôl pob cyfnod.

*Tabl 23: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaethau*

| | **Nifer yr ymatebion** | **Cyfanswm cronnus** |
|---|---|---|
| Dyddiad cau cyntaf – 15 Mawrth 2021 | 13 | 13 |
| Yr ail ddyddiad cau ar ôl cyswllt | 2 | 15 |

Roedd yn bosib i wasanaethau ymateb trwy gwblhau dogfen Word o'r arolwg. Ymgymerodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, a llunio'r adroddiad, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffem ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr, a ddefnyddir i lywio cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â cride@ndcs.org.uk.

## Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol

Amlinellir y tabl hwn rhai data unigol gan wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol i ddarparu'r ffigurau o 31 Ionawr 2021.

Mae ffigurau am Athrawon Plant Byddar yn cynnwys pob Athro Plant Byddar a nodwyd gan wasanaethau, gan gynnwys Athrawon Plant Byddar sydd yn meddu ar y cymhwyster gorfodol (CG) ac Athrawon Plant Byddar sydd o dan hyfforddiant am y CG neu sydd yn bwriadu ymgymryd â'r hyfforddiant o fewn tair blynedd.

Cyfrifir llwythi achos damcaniaethol Athrawon Plant Byddar peripatetig drwy rannu nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw mewn unrhyw ardal benodol ac mewn darpariaeth anarbenigol[27] gyda'r nifer o Athrawon Plant Byddar gwadd cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol[28]. Ni chynhwysir ymatebion lle'r oedd fylchau neu anghysondebau amlwg yn naill ai nifer yr Athrawon Plant Byddar neu nifer y plant byddar sy'n byw yn yr ardal. Gweler tudalen 16 am fwy o wybodaeth. Mewn rhai achosion, lle'r oedd gamgymeriad neu anghysondeb amlwg, ni chyfrifir cymhareb.

Bwriad ffigurau ar gyfer poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau yw dangos lledaeniad darpariaethau adnoddau ar draws pob ardal. Cyfrifir trwy rannu nifer y plant byddar sy'n byw mewn ardal lle mae gwasanaeth yn gweithredu a nifer y darpariaethau adnoddau yn ardal gwasanaeth. Lle nad oes yna ddarpariaeth adnoddau yn yr ardal, arwyddir hyn gan gymhareb o'r boblogaeth yn yr ardal o 0. Dylid defnyddio gofal wrth ddehongli'r ffigurau hyn. Mewn rhai achosion, efallai gall y gymhareb gael ei dylanwadu gan bresenoldeb ysgolion arbennig yn yr ardal neu ddarpariaeth adnoddau eraill mewn ardaloedd cyfagos. Dylid nodi **nid** yw hyn yn fesur o'r nifer o leoedd sydd ar gael yn, neu'r plant byddar unigol sydd wedi'u cofrestri ym mhob darpariaeth adnoddau; bydd y ffigurau am leoedd neu blant byddar sydd wedi'u cofrestri yn amrywio o ddarpariaeth i ddarpariaeth.

27 Mae hyn yn cynnwys: Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig – plant cyn-ysgol, Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol, Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref, Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth (yn cynnwys academïau ac ysgolion rhydd), Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (er enghraifft, Eton), Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir), Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth ysgol), NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig), Arall (e.e. Unedau cyfeirio disgyblion), Nid yw'n hysbys. Nid yw hyn yn cynnwys plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd gyda darpariaeth adnoddau neu ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion.

28 Ni chynhwysir unrhyw athrawon sydd yn gweithio fel Athrawon Plant Byddar ond sydd heb gymhwyster ac nad ydynt o dan hyfforddiant, a swyddi gwag.

*Tabl 24: Data yn ôl awdurdod lleol*

| | Nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae eich gwasanaeth yn gweithredu | Nifer y plant sydd â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth | Nifer y plant sydd â byddardod dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth | Athrawon Plant Byddar sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol | Athrawon Plant Byddar sydd mewn darpariaeth adnoddau | Llwythi achos damcaniaethol Athrawon Plant Byddar peripatetig | Poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont[29] | 184 | 244 | 60 | 1 | 1 | 87:1 | 92:1 |
| Caerdydd | 236 | 232 | 23 | 4.8 | 5.6 | 44:1 | 118:1 |
| Sir Gaerfyrddin | 157 | 202 | 45 | 2.4 | 3 | 57:1 | 79:1 |
| Ceredigion | 71 | 79 | 8 | 0.8 | 1 | 76:1 | 71:1 |
| Conwy | 65 | 78 | 13 | 1 | Dim yn cael ei gofnodi | 62:1 | 65:0 |
| Gwynedd ac Ynys Môn | 140 | 140 | 27 | 2.6 | Dim yn cael ei gofnodi | 54:1 | 140:0 |
| Merthyr Tudful | 38 | 37 | Dim yn cael ei gofnodi | 1 | Dim yn cael ei gofnodi | 38:1 | 38:0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 112 | 221 | 109 | 2 | 1.8 | 45:1 | 56:1 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru[30] | 300 | 272 | 78 | 3.4 | 3.2 | 76:1 | 75:1 |
| Sir Benfro | 59 | 78 | 19 | 1 | Dim yn cael ei gofnodi | 55:1 | 59:0 |
| Powys | 99 | 115 | 18 | 2.6 | Dim yn cael ei gofnodi | 35:1 | 99:0 |
| Rhondda Cynon Taf | 171 | 180 | 9 | 4 | 1 | Heb ei gyfrifo | 171:1 |
| De Ddwyrain Cymru[31] | 432 | 1204 | 772 | 5.5 | 2.6 | 72:1 | 216:1 |
| Dinas Abertawe | 151 | 293 | 91 | 2 | 1.5 | 72:1 | 76:1 |
| Bro Morgannwg | 100 | 55 | Dim yn cael ei gofnodi | 1 | 2 | 82:1 | 50:1 |

[29] Cofnodwyd y gwasanaeth hwn un Athro Plant Byddar CALl ychwanegol yn gweithio yn hyblyg rhwng lleoliadau.
[30] Gan gynnwys Sir y Fflint, Sir Dinbych a Wrecsam.
[31] Gan gynnwys: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd.